**Beirniadaeth:**

**Cystadleuaeth; Cywaith blwyddyn 6 ac iau, Eisteddfod yr Urdd 2026.**

**Dewch am dro – Book Creator**

**Enw'r cystadleuydd: Canolfan Iaith Bro Gwaun**

**Hyd y darn: 4 munud 17 eiliad.**

**Ail Safle**

Mae'r cywaith yn dangos ymdrech dda iawn i greu taith weledol ddiddorol o amgylch Abergwaun, gyda chyfuniad o siarad, cerddoriaeth a lluniau llonydd sy'n cefnogi'r naratif. Roedd y defnydd o'r Gymraeg yn briodol ar y cyfan, gyda brawddegau syml a naturiol. Fodd bynnag, roedd eglurder y cyfathrebu yn anodd mewn rhai rhannau o gyfraniadau'r merched oherwydd bod y gerddoriaeth gefndirol yn eu gwneud yn anodd eu clywed yn glir.

O ran yr iaith, cafwyd amrywiaeth o frawddegau syml yn cynnwys geirfa addas ar gyfer disgrifio lleoedd ac adeiladau.

Er mwyn cyrraedd y safle cyntaf, byddai'n braf gweld mwy o sgwrs naturiol i wneud y cyfathrebu'n fwy byw — er enghraifft sgwrs syml fer gyda'r llyfrgellydd, yn y siop, a rhwng y merched er mwyn cryfhau'r rhyngweithio a manteisio ar ddangos gallu'r merched i ffurfio brawddegau rhyngweithiol – fel cwestiynau ac atebion byrion rhwng ei gilydd. Byddai modd hefyd ychwanegu un manylyn ychwanegol i frawddegau syml er enghraifft: ansoddeiriau syml e.e: Dyma'r parc mawr a braf / Dyma'r parc mawr a braf, felly rydyn ni'n hoffi dod yma i chwarae ac ymlacio.

Da iawn i'r disgyblion am gyflwyniad diddorol.